# Cenn@d

8 Ebrill 2026
Rhifyn 267

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG
a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW


## Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn edrych ymlaen at Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai

Aeth dros wythnos heibio ers cyfarfodydd 'Y Cwrdd | The Gathering' yn ne a gogledd Cymru, a waw! – am wythnos anhygoel a gafwyd yng nghwmni pawb.

Roedden ni wrth ein bodd yn cael croesawu Jane Wathome, Cyfarwyddwr Beacon of Hope, a Janet Ngombalu o Christian Aid Kenya i Gymru i fod yn rhan o'r cyflwyniadau.



*Jane a Janet gydag aelodau o Bwyllgor Cenedlaethol Cymru, Esgob Mary Stallard ac Andrew Sully*

Dechreuodd eu hymweliad gyda chroeso cynnes a Chymreig yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, a chyfarfod y Deon Jason Bray, y Canon Ganghellor Kate Harrison, cynrychiolwyr o Bwyllgor Cymorth Cristnogol Llandaf, ac aelodau o Bwyllgor Cenedlaethol Cymru, Esgob Mary Stallard ac Andrew Sully.

Cafwyd yr un croeso arbennig ym Mhenarth a Wrecsam yn ein cyfarfodydd cefnogwyr cyntaf – Y Cwrdd | The Gathering.

Rhannodd Jane a Janet straeon ysbrydoledig o ddeunyddiau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, gan dod â'r stori'n fyw a dangos sut mae gobaith yn goresgyn heriau yn Nairobi wrth i'n partner Beacon of Hope weithio ochr yn ochr â chymunedau yn Dagoretti.

Rhannwyd diweddariadau hefyd ar yr Ymgyrch Adfer, sy'n galw ar lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i weithredu ar gyfiawnder dyled. Clywodd cefnogwyr sut mae dysgwyr ifanc ledled Cymru yn codi eu lleisiau proffwydol



*Janet gyda chefnogwyr o'r gogledd yn Wrecsam*

drwy'r cynllun Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd a Chymdogion Byd-eang. Roeddem hefyd yn ddiolchgar i Katie Roxburgh am rannu gwybodaeth am y cyd-destun presennol yn y Dwyrain Canol.

Diolch enfawr i bawb a ymunodd â ni. Dyma rai o'ch sylwadau:

- "Diolch, thank you, am Y Cwrdd yn Wrecsam heddiw. Mwynheais yn fawr iawn."
- "Roeddwn i'n meddwl bod y digwyddiad yn rhagorol: ysbrydoledig, addysgiadol ac o gyflymder perffaith."
- "Mwynheais y trafodaethau ym Mhenarth yn fawr iawn … mae Jane a Janet wir yn 'Beacons of Hope'."




*Gweithwyr Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Rebecca, Llinos, Mari a Jane gyda Janet a Jane o Nairobi, Kenya*

*Llinos Roberts, Trefnydd Gogledd Cymru*


Cristnogaeth a Chenedlaetholdeb
Tudalen 2

Ymson Merch Jefftha
Tudalen 3

O Gredo Nicea i farddoniaeth Waldo
Tudalen 4

# Cristnogaeth a Chenedlaetholdeb



Ugain mlynedd yn ôl dywedwyd wrthyf – mewn tôn ychydig yn nawddoglyd – fod fy mhwnc ymchwil yn ‘amherthnasol’. Ond dyma ni ar drothwy etholiad, gyda’r un iaith, yr un symbolau, a’r un rhethreg am Gristnogaeth a chenedlaetholdeb yn cael eu hailgylchu, ond y tro hwn mewn ffurf sy’n peri pryder dwfn i’r rhai ohonom a fagwyd yn sŵn cenedlaetholdeb Valentine a Gwynfor. Nid adfer y traddodiad Cymreig a welwn, ond mewnforio rhywbeth cwbwl wahanol: ‘Christian nationalism’.

A gadewch i ni fod yn glir o’r dechrau: nid yr un peth yw’r ddau.

Roedd cenedlaetholdeb Cristnogol Cymreig – ar ei orau – yn herio grym, yn dosturiol tuag at y gwan, ac yn ymwybodol nad yw cariad at genedl byth yn absoliwt. Roedd yn gynnyrch anghydffurfiaeth: capeli oedd yn dysgu pobl i ddarllen, i feddwl, i gwestiynu awdurdod, ac i gredu nad yw Duw croeshoeliedig ar ochr yr ymerodraeth ond yn hytrach ar ochr y gorthrymedig.

Mae’r ‘Christian nationalism’ cyfoes yn gwneud y gwrthwyneb. Mae’n defnyddio iaith Crist i sancteiddio ofn. Mae’n gosod ffiniau ac yn cynnig hunaniaeth or-syml mewn byd cymhleth: ni yn erbyn nhw.

Nid damwain yw hyn. Pan fo cymdeithas yn newid yn gynt nag y gall hunaniaeth addasu, mae pobl yn chwilio am sicrwydd. Wrth i gymdeithas seciwlareiddio, mae rhai Cristnogion yn dehongli colli breintiau fel erledigaeth. Pan fo ansicrwydd economaidd yn parhau, mae addewidion syml yn swnio’n ddeniadol.

Ond dyma’r broblem fwyaf: mae’n camddefnyddio ffydd. Pan fo ymgyrchwyr gwleidyddol yn honni mai nhw sy’n cynrychioli ‘gwir Gristnogaeth’ ac yn galw’r eglwys yn ‘woke’ am wrthwynebu hiliaeth, poblyddiaeth neu gelwyddau, rydym mewn tiriogaeth beryglus.


Gallwn ddysgu gwersi o’n hanes. Roedd ein traddodiad anghydffurfiol ar ei orau pan oedd yn barod i herio pob grym – hyd yn oed grym oedd yn rhannu ei hiaith ac yn hawlio ymlyniad i’r un grefydd. Ar ei orau, dysgodd y gallai cariad at Gymru ac ymrwymiad i hanfod yr efengyl eistedd gyda’i gilydd heb i’n gwladgarwch droi’n eilunaddoliaeth.

Eto, rhaid gwarchod ein hunain yn barhaus rhag gadael i’n cenedlaetholdeb droi’n eilun. Problem cenedlaetholdeb yw ei fod yn ideoleg wag. Mae’n cymryd siâp yr hyn a dywalltir iddo. Heb sail foesol glir, gall yr ‘achos’ droi’n ddiben ynddo’i hun. A phan fydd hynny’n digwydd, mae’r faner yn disodli’r groes. Dyna pam mae cenedlaetholdeb wedi ei asio ag ideoleg y dde eithafol ac yn defnyddio rhethreg Gristnogol mor beryglus.

Ac felly, yn wyneb ‘Christian nationalism’, nid ein galwad ni fel Cristnogion yng Nghymru yw encilio o’r sgwrs gyhoeddus na gweiddi’n uwch na’r lleill. Ein galwad yw bod yn bobl sy’n caru’r gwirionedd yn fwy na sentimentalwch, sy’n gwrthsefyll ofn, ac sy’n cofio nad gwladwriaeth, plaid na diwylliant yw canol ein ffydd – ond y Crist croeshoeliedig.

Oherwydd pan fo ffydd yn colli ei gallu i feirniadu grym, mae’n colli ei henaid. Ac nid dyna’r etifeddiaeth a roddwyd i ni.

*Rhys Llwyd (gyda diolch i wefan **Cristnogaeth21**)*




Os hoffech ddarllen mwy, mae ffrwyth ymchwil Rhys wedi ei gyhoeddi bellach mewn cyfrol yn dwyn y teitl *Tynged Cenedl: Cenedlaetholdeb Gristnogol R. Tudur Jones*. Mae’r gyfrol ar gael o’ch siop Gymraeg leol.

O ARGLWYDD, adfer ein llwyddiant fel ffrydiau yn y Negef.
Salm 126:4

Wrth nesáu at gyfnodau olaf bywyd, mae Salm 126 yn ein hatgoffa fod yr Arglwydd wedi bod yn ffyddlon i’w bobl yn y gorffennol, ei fod yn parhau’n ffyddlon heddiw, ac yn addo bod yn ffyddlon yn y dyfodol. Mae’n Un y medrwn ddibynnu’n llwyr arno, ac yn haeddu mawl.

Ar waethaf effeithiau heneiddio, medrwn ymddiried y bydd y Duw a ddarparodd yr had i’w hau am sicrhau cynhaeaf yn ein bywydau ni, ac ym mywydau’r rhai yr ydym wedi buddsoddi ynddynt, gan esgor ar lawenydd yn ein calonnau.
Medrwn weddïo mewn ffydd, gan gredu y bydd y Duw sy’n dod â’r glaw i’r Negef, i ganol anialwch y lle hwnnw, yn dwyn cyflawnder o fendith, adferiad, a gobaith i’w bobl yng Nghymru ac ar draws ei fyd.

Fel Caplan Oedolion Hŷn, mae Samantha Hodgins yn awyddus i gefnogi, annog, a chydgerdded gyda phobl sy’n mynd yn hŷn o fewn eglwysi, Henaduriaethau, a Thaleithiau Eglwys Bresbyteraidd Cymru.
Wrth iddi gynnig cefnogaeth Feiblaidd, fugeiliol ac ysbrydol i bobl hŷn, mae rôl Samantha yn cynnwys hwyluso’u twf fel disgyblion, yn ogystal â chyfeirio pobl at asiantaethau priodol, a chynhyrchu adnoddau fydd yn annog ffydd yn y blynyddoedd olaf.




I gael mwy o wybodaeth
e-bostiwch Mrs Samantha Hodgins BTh
sam.hodgins@ebcpcw.cymru
neu ffoniwch 07581214847

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 17

## Ymson Merch Jefftha

Ro'n i'n gwybod y byddai fy nhad wedi hoffi cael mab, ond fi oedd ei unig blentyn; felly, fe'm derbyniodd. Roedd perthynas dda rhyngom: ro'n i'n ei ddeall ac yn gwybod am y cysgodion oedd yn llechu'r tu mewn iddo. Bu raid iddo adael ei deulu, a hynny oherwydd nad oedd yn adnabod ei fam. Pwysai'r boen o gael ei wrthod ar ei ysgwyddau'n drwm, ond llwyddodd i wneud enw iddo'i hun, serch hynny – cymaint felly nes i henaduriaid Gilea ddod ato ac awgrymu y gallai fod yn arweinydd. Y diwrnod hwnnw, gwelais ryw ffyrnigrwydd yn fflachio yn ei lygaid. Peth peryglus yw dyheu am rym ac fe all wneud person yn fyrbwyll.

Fel arweinydd, roedd yn rhaid iddo wynebu'r Ammoniaid ac roedd ofn arno. Dyna pryd yr aeth i siarad â Duw. Ro'n i'n ffyddiog y byddai Duw yn edrych ar ei ôl ac ar ein hôl ni i gyd. Bûm yn poeni, wrth gwrs, tra oedd i ffwrdd, ond pan glywais mai ein pobl ni oedd wedi ennill y dydd, ro'n i ar ben y byd. Roedd fy nhad yn bwysig ac yn llwyddiannus; llanwodd fy nghalon â balchder. Clywais ei fod ar ei ffordd adre a gwnes yn siŵr fy mod yn barod i'w groesawu a'i gyfarch. Fel ei ferch, roedd gen i'r hawl i'w longyfarch a dawnsio dawns â thamborîn!

Gwelais ef yn dynesu ac es allan o'r tŷ. Roedd y llwch yn codi o gwmpas ei draed ac roedd ei wedd yn drwm gan flinder. Wrth glywed rhythm f'offeryn taro, cododd ei lygaid tuag ataf ac yn hytrach na gwên, gwelais ddychryn. Fedrwn i ddim credu'r peth. Fe ddylai fod yn hapus i'm gweld. Ond, yn lle hynny, edrychodd arnaf fel petawn yn elyn iddo!

Yna, collodd arno'i hun a dechreuodd rwygo'i ddilad. Soniodd am ryw addewid yr oedd wedi'i wneud i Dduw. Roedd cytundeb wedi digwydd ym meddwl fy nhad, a'r gytundeb honno'n sanctaidd yn ei olwg. Ni allai'r geiriau a ynganwyd ganddo fyth gael eu tynnu'n ôl. Am y tro cyntaf erioed, fe deimlais nad oeddwn yn perthyn iddo, nad oeddwn yn bwysig, nad oeddwn yn cyfri.

Yn sydyn, sylweddolais arwyddocâd hyn. Oherwydd ei fod wedi ennill y frwydr, a fyddwn i nawr yn colli'r hawl i fyw? Ar sail rhyw addewid na wyddwn i ddim amdano, doedd dim ar ôl i mi? Sut allai hyn fod yn digwydd? Beth ddylwn i ei wneud? Doedd dim posib dianc, gan nad oedd gen i unlle i fynd iddo. Pwy fyddai'n gymorth i mi? Oedd y Duw a dderbyniodd yr addewid yn Dduw i mi hefyd?

Sefais am funud cyn dweud dim. Yna'n araf, penderfynais nad oedd dim dewis ond derbyn fy ffawd. Efallai y dylwn fod wedi brwydro, amddiffyn fy hun, gwrthod derbyn. Ond doedd gan ferch ifanc fel fi mo'r grym i allu newid dim.

Felly gofynnais am un peth, sef amser. Roedd angen amser arna i i ddod i delerau â'r holl beth. Ro'n i eisiau galaru am y pethau na wyddwn amdanynt: cofleidio, priodi, caru, magu plant. Ond, yn fwy na hynny hefyd – dyddiau da, blynyddoedd o brofiadau, bendithion aeddfedu a heneiddio.

Fe ges i fynd i'r bryniau am ddeufis gyda fy ffrindiau agosaf. Wylais ddagrau. Gwaeddais ar y sêr a'r lloer, yr haul a'r cymylau. Teimlais gri'r gwynt ar fy ngruddiau a llif yr afon ar fy nghroen. Disgwyliais am angel. Chwiliais am oleuni. Ni ddaeth unrhyw lewyrch i'm llwybr.

Daeth y deufis i ben. Dychwelais. A dyna lle daw'r ymson hon hefyd i ben. Fyddwn i ddim eisiau ichi wybod y manylion: rhy drwm ydynt i'w cario.

### Holi

- Does dim yn y stori'n dweud fod Duw wedi derbyn addewid Jefftha. Ai anaeddfedrwydd, diffyg doethineb, gwendid ysbrydol, neu greulondeb tad a geir yn yr hanes?
- Pa mor bwysig yw enw? Ydyn ni'n tueddu i anghofio stori pobl os na wyddom eu henwau?
- Oes yna sefyllfaoedd yn ein cyfnod ni lle mae pobl yn cyfiawnhau penderfyniadau dinistriol yn enw ffydd?
- Ai dewr neu wirion oedd merch Jefftha? Pam dderbyniodd hi ei ffawd (e.e. oherwydd cred, diwylliant, grym patriarchaidd etc)?
- Beth, yn eich tyb chi, fyddai ymateb Iesu Grist i'r stori hon?

### Gweddi

Rho inni oleuni meddwl.
Maddau inni am beidio â
sefyll yn gadarn yn erbyn pob
anghyfiawnder.
Rho inni ddewrder i wneud yr hyn
sydd o fewn ein cyrraedd i fod
o gymorth i eraill.
Maddau inni am osgoi deall
hanfodion ein ffydd.
Rho inni'r dyhead i ddysgu.
Maddau inni pob ffolineb.
Rho inni ddoethineb. Amen.

*Sian Meinir*

BBC radio cymru S4C

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 12 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Ganu Capel Seion,
Dre-fach, Llanelli, dan arweiniad
Helen Gibbon

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 12 Ebrill – oedfa am 12:00yp**
dan ofal Jill Hayley Harries, Abertawe

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 12 Ebrill, am 11:45yh**
Ailddarllediad o raglen y Pasg


# O Gredo Nicea i farddoniaeth Waldo ac o'r almanacwyr i ddamcaniaeth cwantwm – i gyd mewn rhifyn newydd o'r Traethodydd

Ymdriniaeth T. Robin Chapman ag agwedd newydd ar farddoniaeth Waldo Williams yw prif ysgrif rhifyn Ebrill 2026 o'r *Traethodydd.* Amser, lle a chanfyddiad yw'r thema, gyda'r awdur yn dadansoddi'r elfennau hynny yng nghanu'r bardd. Enillodd Waldo ei le ers tro byd fel bardd Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif – ydi hi'n gywir honni hynny, ac ystyried cynifer o feirdd mawr eraill a fu'n cydoesi ag ef? Ond mae'r beirniaid, heb sôn am ddarllenwyr cyffredin, yn dal i ddarganfod pethau newydd yn ei waith. Felly hefyd yn yr ysgrif gyfoethog a thra darllenadwy hon.

Y flwyddyn 2025 oedd mil saith canmlwyddiant cyhoeddi Credo Nicea, y credo a sefydlodd farn yr eglwys ar Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist. Mewn traethiad hynod awgrymog, mae Rosa Hunt, un o golofnwyr cyson *Cenn@d* a gweinidog Eglwys y Tabernacl, Caerdydd, yn gofyn y cwestiwn: 'Beth sydd gan Gredo Nicea i'w ddweud wrth Gymru heddiw?' Nid traethiad sychlyd a damcaniaethol sydd ganddi, ond cyflwyniad bywiog i rai o wirioneddau creiddiol y ffydd a'u perthnasedd hynod i'r byd cyfoes. Sylwedd Darlith Goffa Pennar Davies a Tudur Jones i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yw'r ysgrif hon, a chyhoeddir yr ail ran yn rhifyn Gorffennaf.

Gogledd Cymru, yn fwy na'r de, a gynhyrchodd brif almanacwyr y genedl dair canrif yn ôl. Mewn ysgrif gynhwysfawr mae A. Cynfael Lake yn disgrifio bywyd a gwaith John Harris o Gydweli a Mathew Williams o Rosmaen, Llandeilo, dau ddeheuwr a oleuodd y Cymry trwy eu halmanaciau yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Cawn yma gipolwg ar fywydau'r werin ar y pryd, a hynny mewn ffordd ddifyr iawn.

Efallai y bydd y rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â'r term Saesneg




*Quantum Theory* os nad yn deall ei ystyr. Felly, buddiol yw cael gwybod nid yn unig beth yw damcaniaeth cwantwm ond sut y cafodd ei darganfod. 'Helgoland, Göttingen a Threganna a dirgelion y Cwantwm' yw teitl ysgrif Rowland Wynne, sy'n olrhain hanes dau wyddonydd enwog, Werner Heisenberg a Max Born, yn yr anturiaeth hon. Ceir cyswllt Cymreig i'r stori am fod un o'u cyd-weithwyr yn hanu o Dreganna, Caerdydd, ac yntau'n dad i un o sêr byd y ffilmiau. Ond bydd yn rhaid i chi ddarllen yr ysgrif i wybod pwy yn union ydyw!

Ceir dau adolygiad cynhwysfawr yn y rhifyn hwn, y naill gan Dafydd Glyn Jones ar astudiaeth bwysig Dewi Alter, yr ysgolhaig ifanc o Gaerdydd, *Cof Diwylliannol yng Nghymru'r Cyfnod Modern Cynnar*, tra mae Rhianedd Jewell, un arall o'n hysgolheigion ifainc, yn tafoli'r gyfrol *Gweddnewidiadau: Ysgrifau Beirniadol XXXV*, a olygwyd gan Elis Dafydd a Gareth-Evans Jones. Mae'n dda deall bod y gyfres bwysig hon yn parhau, y tro hwn dan ofal ysgolheigion ifainc (eto!), o Brifysgol Bangor.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan: www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

## Gwarchod Treftadaeth Anghydffurfiol Cymru

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi cael cefnogaeth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddatblygu prosiect newydd mawr: **Capeli Cymru: Gwarchod Treftadaeth Anghydffurfiol Cymru**. Rydym yn cynnal Cyfrifiad Capeli Cenedlaethol fel rhan o gyfnod datblygu'r prosiect. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach inni o faint o gapeli yng Nghymru sy'n dal ar agor, sut maen nhw'n cael eu defnyddio gan gynulleidfaoedd a chymunedau, a chyflwr yr adeiladau. Gan ddefnyddio data Cyfrifiad y Capeli, byddwn yn gweithio gydag enwadau, cynulleidfaoedd a grwpiau eraill i nodi ffyrdd mwy effeithiol o gefnogi capeli i aros ar agor. Byddem yn ddiolchgar iawn pe byddech yn cwblhau ein holiadur ar ran eich capel: https://zurl.co/O1PeG.
Mae'r holiadur ar-lein yn cymryd tua 5 munud i'w gwblhau.

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.